



Taith gylchol Dolanog



Llwybr Glyndŵr ger Dolanog

Manylion y llwybr

Codi'n raddol ar Lwybr Glyndŵr dros diroedd comin a dolydd blodau gwylt. Yna mwynhewch ddychwelyd yn hamddenol ar lan yr afon ar Lwybr Anne Griffiths, a enwyd ar ôl yr emynydd enwog o'r 18fed ganrif a ymgartrefodd yn yr ardal hon.

- Pellter:** 6 milltir/9.5 km
Lleoliad Cychwyn: Dolanog car park
Cychwyn What3Words: dustbin.petulant.steadily

Cychwyn

O'r maes parcio rhad ac am ddim yn Nolanog, trowch i'r dde i Lwybr Glyndŵr a cherdded yn hamddenol i fyny'r lôn darmac. Daw'r lôn hon yn drac carreg ac yn parhau at fynegbost sy'n eich cyfeirio i'r chwith ac i fyny'r bryn, ar y llwybr a rennir gan Lwybr Glyndŵr a Llwybr Anne Griffiths. Dilynwch y mynegbyst am 1.2km ar y llwybr gwyrdd o amgylch ystlys Allt Dolanog, gan ddisgyn at gât i gerddwyr ar ochr y ffordd ym mhwynt A.

Yma byddwch yn gadael llwybr Anne Griffiths a throwch i'r dde ar hyd y ffordd ar hyd Llwybr Glyndŵr. Bron yn syth, trowch i'r chwith a phasio rhwng pileri clwyd gŵyn Dolwar Fach.


Ar ôl 150m edrychwch am risiau ar y dde. Cerddwch i fyny'r ddôl serth gan gadw'r coed uchel ar y dde i chi. Wrth i chi ddringo, cymerwch amser i aros ac edrych yn ôl ar y dyffryn bryniog, coediog hardd y tu ôl i chi. Dilynwch gyfeirbwyntiau Llwybr Glyndŵr, ar byst a gatiâu, ar hyd ymylon caeau am 1km, nes i chi gyrraedd trac caeedig.

Trowch i'r chwith ar hyd y trac a pharhau am 1km nes i chi gyrraedd lôn dawel.

Trowch i'r dde a cherdded i lawr y lôn am 200m at fynegbost Llwybr Glyndŵr a gât ar y chwith. Cerddwch ar hyd y llwybr glaswelltog nes bod llinell y clawdd yn mynd rownd cornel. Daliwch i gerdded yn syth ymlaen, ar draws y ddôl at bostyn cyfeirbwynt â thop melyn. Mae hyn yn eich cyfeirio i fyny'r clawdd at hen drac â choed ar ei hyd.

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR

Taith gylchol Dolanog



Trowch i'r chwith a cherdded am 400m ar hyd y llwybr gwyrdd nes cyrraedd fferm Llwynhir. Cadwch yr adeiladau fferm ar y chwith ac ewch ymlaen yn ôl y cyfarwyddyd. Ar ôl 200m fe welwch saethau ar bolyn telegraff sy'n eich cyfeirio i'r chwith dros gae at gât yn llinell y ffens.

Trowch i'r dde i drac mynediad y fferm a cherddwch i ymuno â lôn. Trowch i'r dde, ac ar ôl ychydig fetrau, trowch i'r chwith oddi ar y lôn yn unol â'r mynegbost.

Mwynhewch y daith gerdded i lawr y dolydd am 550m nes i chi gyrraedd mynegbost 3-ffordd ym Mhwynt B. Yma byddwch yn gadael Llwybr Glyndŵr ac yn ymuno â Llwybr Anne Griffiths eto.

Trowch i'r chwith a chroesi'r nant fechan, yn ôl y cyfarwyddyd gan saeth felen Llwybr Anne Griffiths ar y postyn. Mae'ch llwybr nawr ar hyd yr Afon Efyrrwy, edrychwch am y ffurfiannau creigiau wedi'u cerfio â dŵr ar hyd ei thaith.

Cadwch yr afon ar eich ochr dde ac ewch ymlaen am 800m drwy'r dolydd heddychlon nes i chi weld bwthyn uwchben y llwybr. Cerddwch i ddiwedd y ddôl a chwiliwch am gât i gerddwyr ar y chwith i chi. Ewch ymlaen i'r trac carreg a throwch i'r dde dros y bont droed.

Dringwch yn araf i fyny'r trac cyn disgyn i ryd lydan, ond peidiwch â phoeni, ni fydd yn rhaid i chi gerdded trwy'r afon. Edrychwch i'r chwith a pharhau yn ôl y cyfarwyddyd, gan gadw'r afon ar y dde i chi bob amser.

Ar ôl 1km croeswch bont droed ac yn fuan byddwch yn cyrraedd ardal goediog. Yma i ddechrau rydych yn union wrth ymyl yr afon ar y llwybr â gwreiddiau nes i chi ddringo set o risiau.

Byddwch yn cyrraedd dôl o flaen Plas Dolanog. Cadwch i'r chwith yn ôl yr arwydd ac ewch drwy gât cae i'r lôn.

Cerddwch i fyny'r lôn am 200m nes i chi ymuno â'r ffordd fwy a throwch i'r dde i gerdded y 500m yn ôl i Ddolanog. Er ei bod yn ffordd 'B', mae'n weddol dawel, ond sicrhewch eich bod yn weladwy i draffig.


Yn y pentref, cymerwch y troad cyntaf i'r chwith, ag arwydd maes parcio rhad ac am ddim, a dychwelwch i'ch man cychwyn.

Parcio: Maes parcio am ddim yn Dolanog.

Bws: Amherthnasol

Trên: Amherthnasol

Gwybodaeth gyffredinol: Toiledau cyhoeddus ym maes parcio Dolanog.



Am fwy o wybodaeth am gynllunio eich taith gerdded, ewch i www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks